**Grŵp Trawsbleidiol ar Hinsawdd, Natur a Lles**

16:30 – 17:30
12.05.2022

Cyfarfod rhithwir drwy Zoom

**Agenda:**

1. Croeso a chyflwyniad
   **Delyth Jewell AS**

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf
   **Delyth Jewell AS**

3. **Llysgenhadon hinsawdd Ieuenctid Cymru**

4. **Marvin Thompson,** Llenyddiaeth Cymru

5. Trafodaeth ar y newid, newid yn yr hinsawdd a natur

6. Busnes arall
   Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf
   **Delyth Jewell AS**

**Camau i'w cymryd:**

- Ystyried unrhyw gydweithio posibl yn y dyfodol gyda GRhG rhwng cenedlaethau
- Gosod dyddiad ac amser ar gyfer y cyfarfod nesaf ar ôl gwyliau'r haf

**Yn bresennol:**

Andrew Bettridge, Antonia Fabian, Bryony Bromley, Catrin James, Daisy Noott, Dan, Emily Dafydd-Drew, Joe Rossiter, Dr Kathryn Speedy, Kim Mamhende, Lewis Brace, Marvin Thompson, Miriam Sautin, Nel Hywel, Ollie John, Poppy Stowell- Evans, Rebecca Brough, Ryland Doyle, Sam Ward, Sandy Clubb, Dr Tom Downs

Aelodau o'r Senedd yn bresennol:

Delyth Jewell MS (Cadeirydd), Llyr Gruffydd MS, Carolyn Thomas MS

Ymddiheuriadau ASau:

Jane Dodds AS, Heledd Fychan AS, Tom Giffard AS, Vikki Howells AS, Mark Isherwood AS, Ken Skates AS, Dawn Bowden AS, Natasha Asghar AS, Lesley Griffiths AS, Luke Fletcher AS, Sian Gwenllian AS, Cefin Campbell AS, Russell George AS

Ymddiheuriadau:  Liz Williams, Molly Hucker, Lleucu Siencyn

**Cofnodion**

1. Croeso a chyflwyniad
   **Delyth Jewell AS**

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf
   **Delyth Jewell AS**

Delyth Jewell AS

- Croeso a chyflwyniad i newydd-ddyfodiaid
- Llofnodwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf

3. **Llysgenhadon hinsawdd Ieuenctid Cymru**

Poppy Stowell-Evans

- Mae'r Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar hawliau pobl frodorol a sut mae newid hinsawdd yn effeithio arnynt ar lefel cyfiawnder cymdeithasol.
- Y themâu eleni yw cyfiawnder cymdeithasol a newid hinsawdd, lleisiau brodorol a bioamrywiaeth
- Nod cyntaf y flwyddyn yw bioamrywiaeth, trafod ei bwysigrwydd a beth all unigolion ei wneud i sicrhau ei fod yn cael ei gydnabod fel blaenoriaeth.
- Rhan o faniffesto'r llysgenhadon yw i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i adfer mawndiroedd ledled Cymru a chynhyrchu cynllun i sicrhau nad yw Cymru'n cyfrannu at ddatgoedwigo dramor.
- Byddwn yn lobïo i ennill cefnogaeth i'r pwyntiau hyn

Cwestiynau a sylwadau

Carolyn Thomas

- Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar reoli lleiniau glas ar gyfer bioamrywiaeth, gobeithio ar ddiwedd Mehefin/dechrau Gorffennaf gyda hyfforddiant i gynghorwyr ar reoli'r rhain.
- Mater arall sydd wedi'i godi yw pwysigrwydd glaswelltir i fioamrywiaeth ac nid dim ond plannu coed a allai fod yn rhywbeth y gallem ei godi gyda'n gilydd.

4. **Marvin Thompson,** Llenyddiaeth Cymru

Marvin Thompson

- Dyma brosiect newydd y mae Llenyddiaeth Cymru wedi bod yn ei gynllunio. Fe'i gelwir yn 'lit in place' neu Llên Mewn Lle ac mae'n ysgrifennu am yr argyfwng hinsawdd
- Un o agweddau allweddol cynllun strategol newydd Llenyddiaeth Cymru yw mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chanolbwyntio ar lesiant
- Mae Llên Mewn Lle yn ymwneud ag awduron sy'n gweithio mewn amgylcheddau hyper-leol (e.e. efallai bod eich pentref yn lleol ond efallai bod darn o gamlas yn y pentref hwnnw yn hyper-leol)
- Nid oes gan gymunedau lleol gydberthnasau â chwmnïau cenedlaethol mwy bob amser felly mae'n bwysig eu bod yn dod o hyd i lais ac yn cymryd perchnogaeth o'u llesiant eu hunain a'r argyfwng hinsawdd
- Mae'r prosiect yn caniatáu i awduron weithio yn y gymuned leol, sy'n dda i'r amgylchedd, ac mae hyn yn caniatáu hyfforddiant i awduron ddatblygu a mynd ymlaen i wneud gwaith arall, megis cynlluniau llawryf, yn ogystal â chael hwyluswyr profiadol eraill i weithredu fel mentoriaid i'r ysgrifenwyr
- Y syniad yw cael pobl i siarad, ymgysylltu ag, ac ysgrifennu am yr argyfwng hinsawdd
- Mae pryder am yr hinsawdd yn un o'r pethau allweddol i bobl o ystod o oedrannau
- Ni allwn wneud y newidiadau enfawr y gall corfforaethau a llywodraethau eu gwneud, ond efallai y gallwn gael ein grymuso i wneud rhywbeth yn lleol
- Mae amser, argyfwng, cyfranogiad, iechyd a lles, a datblygiad awduron oll yn elfennau allweddol i strategaeth newydd Llenyddiaeth Cymru
- Yr hyn sy'n bwysig yn y rhain yw'r croestoriad rhwng argyfwng hinsawdd, pobl yn cymryd rhan mewn ysgrifennu, manteision iechyd a lles yn deillio o hyn, a datblygiad awduron.
- Po fwyaf o awduron sydd wedi'u grymuso i ysgrifennu am yr argyfwng hinsawdd, y mwyaf o leisiau sydd gennym yn siarad amdano mewn ffyrdd cynnil a chreadigol
- Gall iaith helpu pobl i ddod i delerau â sut maent yn teimlo am yr argyfwng ac mae mentrau hyperleol yn eu helpu i weithio ar wneud gwahaniaeth
- Gall miliynau o bobl ddod at ei gilydd i wneud newidiadau bach i wneud newid mawr
- Mae hefyd yn bwysig edrych ar gynulleidfaoedd ar gyfer llenyddiaeth a'r celfyddydau – n
- od y prosiect hwn yw gofyn i gymunedau beth maen nhw ei eisiau a sut gallwn ni helpu
- Mae cynulleidfaoedd i gymryd perchnogaeth o'u perthynas â'r celfyddydau, a hefyd yr argyfwng hinsawdd, er mwyn caniatáu i iachâd gwirioneddol ddigwydd
- Mae'r prosiect yn cysylltu partneriaid cenedlaethol a chymunedau bach, hyperleol i feithrin perthnasoedd a chanolbwyntio ar les a deall yr argyfwng hinsawdd yn fwy manwl a defnyddio llenyddiaeth fel arf iachâd.
- Bydd gan Llenyddiaeth Cymru 3 llawryf lleol yn gweithio mewn cymunedau hyperleol ledled Cymru, a bydd un ohonynt yn cyflawni ei waith drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ym mis Ionawr, Llenyddiaeth Cymru fydd yn cael yr adroddiad dadansoddi effaith cyntaf a gall hyrwyddo'r canfyddiadau i'r sector ehangach

Cwestiynau a sylwadau

Ollie John

- Ym maes iechyd meddwl rydym wedi darganfod nad yw pawb eisiau clywed gan feddygon – mae cael awduron 'allan yna' i helpu gyda rhai o'r negeseuon wedi gweithio'n dda iawn o ran rhai o'r prosiectau y mae RCPsych a Llenyddiaeth Cymru wedi'u gwneud ar y cyd ar iechyd meddwl, felly mae gennym ddiddordeb mawr mewn gweld yr adroddiad effaith ar newid yn yr hinsawdd

Joe Rossiter

- Mae llawer i'w ddysgu o lenyddiaeth am wneud achos cadarnhaol dros newid
- Weithiau mae'n anodd mynegi'r hyn rydych am ei gyflawni pan fyddwch yn wynebu rhwystr eithaf mawr a gall y ffordd rydym yn geirio pethau fod yn bwysig iawn o ran cael cymaint o effaith â phosibl

Sam Ward

- Pan fydd y llawryfion ac awduron lleol yn dechrau cyflwyno cynnwys, rydym yn hapus i hyrwyddo trwy Climate Cymru
- Mae gan Climate Cymru rwydwaith o 250 o sefydliadau felly mae cyfle trwy ein rhwydweithiau i arddangos hynny

Delyth Jewell

- Bydd neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd yn mynd allan yr 18ed Mai

5. Trafodaeth ar y celfyddydau, newid yn yr hinsawdd a natur

Dawn Lyle

- Darllenais lyfr gan Rob Hopkins a oedd yn sôn am sut mae un o'r rhwystrau mawr i weithredu hinsawdd yn creu math newydd o gymdeithas na allwn ei rhagweld.
- Gall adrodd straeon a chelf greadigol helpu i beintio darlun o ddyfodol llewyrchus
- Weithiau gall sgyrsiau am yr argyfwng hinsawdd fod yn rhwystr i rymuso a chreu straen, felly gall creu gweledigaeth gadarnhaol o'r hyn rydyn ni'n ceisio ei greu fod yn ddefnyddiol iawn.

Delyth Jewell

- Mae'n beth pwerus nid yn unig i ddychmygu ond hefyd i ymgorffori gofod lle mae pethau'n well
- Mae adrodd straeon yn arf gwych ar gyfer hyn
- Gallwn droi'r sgwrs o ba mor enbyd yw pethau i'r pethau rhyfeddol a all ddigwydd

Ollie John

- Mae cael cymuned lle gallwch chi fynegi barn yn bwysig iawn, gall grymuso a gwneud pethau fel grŵp fod yn arbennig iawn
- A fu unrhyw ystyriaeth yn rhaglen Llenyddiaeth Cymru am weithgarwch grŵp a mynediad pobl at rywfaint o'r gwaith hwn?
- A ydym yn edrych ar awduron sefydledig neu a oes cyfle i awduron newydd hefyd?

Marvin Thompson

- Gan eu bod yn lawryfion lleol, byddant yn gweithio mewn grwpiau cymunedol, felly bydd pobl yn gallu cael yr ymdeimlad hwnnw o gymuned sy'n bwysig ar gyfer lles.
- Rydym eisiau hwyluswyr profiadol i arwain gweithdai ond yn y tymor hir bydd hwyluswyr llai profiadol a allai weithio ar brosiect gyda mentor mwy profiadol.
- Mae hwn hefyd yn gyfle i'r cyfranogwyr fyfyrio ynghylch a allent fod yn awdur
- Bydd grwpiau yn cydweithio i feithrin awduron yfory

Delyth Jewell

- Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar ôl y cyfarfod hwn, anfonwch nhw ymlaen a byddant yn cael eu cynnwys yn y cofnodion

6. Busnes arall
   Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf
   **Delyth Jewell AS**

Ollie John

- Bydd pob seiciatrydd newydd yn derbyn addysg cynaliadwyedd fel rhan o'u hyfforddiant arbenigol yn y cwricwlwm newydd
- Mae hyn yn cydnabod bod pobl ifanc yn arbennig am siarad am y pethau hyn felly mae angen addysgu pobl sy'n arbenigo mewn meddygaeth i gefnogi

Dawn Lyle

- Mae gan gynghrair economi llesiant gyfarfod heno am 7pm am fwyd, mae hyn yn bwysig i'n lles ond hefyd yn borth da i weithredu hyperleol ar hinsawdd, bioamrywiaeth a natur
- Gwahoddir pawb sy'n ymwneud â bwyd a gwahoddir prosiectau bwyd ledled Cymru i rannu'r hyn y maent yn ei wneud ac ysbrydoli sefydliadau cymunedol i wneud mwy am drawsnewid y system fwyd.

Sam Ward

- Dechreuodd Climate Cymru fel grŵp yn ystod y cyfnod cyn COP 26 ac yna daeth yn amlwg bod llawer mwy i'w wneud felly rydym wedi derbyn mwy o gyllid ac yn recriwtio
- Rydym yn hapus iawn i fod yn rhan o'r grŵp trawsbleidiol

Sandy Clubb

- Cawsom syniad o orgyffwrdd â'r GRhG undod rhwng cenedlaethau
- Codwyd pwyntiau am fanteision gweithgareddau rhwng cenedlaethau er lles, a byddai'n dda cysylltu'r ddau grŵp, naill ai yn y cyfarfod hwn neu mewn cyfarfod ar wahân.

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w bennu ar ôl gwyliau'r haf